# Cytûn Winter 2012 Newsletter

**As 2012 draws to a close it's time for Cytûn to say a big thank you for all the support that's been given throughout the year. We are grateful for: all your prayers, the commitment to the ecumenical endeavour throughout Wales and for the hundreds of partners and volunteers who have helped Cytûn to sustain the churches' witness to Christ the Saviour at several key national events.**

Since publishing our last newsletter a few weeks ago, several exciting things have happened. The staff team have been busy during the build-up to Christmas.

Focusing on church development, Cytûn has:

- held conversations with the Ethiopian Orthodox community in Wales with a view to enabling them to find a permanent place to worship and to receive their Church into Cytûn membership,
- continued to provide the Reverend Irfan John of the Methodist Church with support and encouragement as he establishes new ethnic minority congregations especially in Cardiff and Newport,
- explored the holding of mission focused liturgies with clergy in the Usk valley,
- played a supporting part in reviewing the Cardiff East Ecumenical Partnership,
- supported the work of the Cardiff Bay LEP's Sponsoring Body and encouraged the mission and ministry of the Lightship,
- extended the deadline for the Welcome to Wales Ministry Course to be held in Saint Michael's College, Llandaff on 23-25 January until 5th January,
- continued to map local ecumenical partnerships throughout Wales,
- attended and supported several local and regional church services and meetings throughout Wales.

Focusing on our work in the public arena, there have been significant developments:

- the Welsh Government's Faith Communities Forum: agreed to review the holding of prayers before Council meetings, underlined the need to support chaplains in Wales' hospitals and consulted further on the Human Transplantation (Wales) Bill,
- played a pivotal part in shaping and delivering Wales' first national Migration Conference in Cardiff reflecting on the needs of the persecuted church seeking sanctuary in Wales and the challenging matter of human trafficking,



National Migration Conference in Cardiff

- contributed to the work of the planning group for the Welsh Government's recently created Race Forum,
- supported the work of the Cardiff Centre for Chaplaincy Service.

From the Commission of the Covenanted Churches

Following on from The Gathering, held in Aberystwyth in October, Rhian Linecar has been involved in follow-up work such as:

- answering queries concerning the discussion / reflection process for the churches concerned,
- sending out documentation to interested parties,
- deciding with Ynyr Roberts what information needs to be included on the Gathering website – **www.cydgynulliad.org.uk**
- attending the Catholic Commission for Christian Unity to talk about The Gathering.



As we prepare for the Christmas period, I bring you festive greetings from the members of the Free Church Council of Wales:

*Christmas is of course a time for great joy and optimism for the world. But we celebrate in a nation and world where people are in great need, and in danger of despair; a world which is in increasing need of the message of hope that comes from the manger bed.*

*We live in times of economic strife, and increasingly hard times for the most vulnerable in our society. We hope and pray the people of Wales will respond to the needs of their neighbours in faith, hope and love, drawing on the life, work and teachings of Jesus.*

*All of us in the Free Church Council of Wales pray that the hope revealed by the Christ child, may be ever present this Christmas and throughout the coming year to the people of Wales and the wider world.*

*To all of you, on behalf of all of us, Happy Christmas and a peaceful, happy and prosperous 2013!*

*Gareth Morgan Jones,*
*President of the Free Church Council Of Wales*

At its last meeting, 26th November, the Free Church Council discussed key religious education issues, considered a presentation on the Human Transplantation Bill and reflected on the question of holding Council Prayers. Reports were also received from a number of members focusing on celebrating the Great Ejection and reflecting upon the implications of the Commission of the Covenanted Church's Gathering.

## Future Meetings

Cytûn's next Enabling Group Meeting will be held at the **Gateway in Shrewsbury on Thursday 14 February**.

Also, looking ahead, initial preparations for the Churches' tents at 2013's national events are also under way with a letter asking for denominational contacts in each of the areas (Boncath, Builth Wells and Denbigh) sent out to denominational leaders. If you live in one of these areas and would like to be part of the teams preparing locally for these important events then please contact **rhian@cytun.org.uk**

Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited"
Cytûn is a registered charity | Number: 1117071 Cytûn, 58 Richmond Road, Cardiff, CF24 3UR | phone: 02920 464204 | e-mail: post@cytun.org.uk

# Cytûn Gaeaf 2012
# Cylchlythyr

**Wrth i 2012 ddirwyn i ben mae'n bryd i Cytûn ddiolch yn fawr am yr holl gefnogaeth a roddwyd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ddiolchgar am: eich holl weddïau, yr ymrwymiad i'r ymdrech eciwmenaidd ledled Cymru ac am y cannoedd o bartneriaid a gwirfoddolwyr a helpodd Cytûn i gynnal tystiolaeth yr eglwysi i Grist y Gwaredwr mewn nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol allweddol.**

Ers cyhoeddi ein cylchlythyr diwethaf ychydig wythnosau yn ôl, digwyddodd sawl peth cyffrous. Bu'r tîm staff yn brysur yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig.

Gan ganolbwyntio ar ddatblygiad eglwysig, mae Cytûn wedi:

- cynnal trafodaethau gyda chymuned Uniongred Ethiopia yng Nghymru gyda'r bwriad o'u galluogi i gael hyd i le parhaol i addoli, ac i dderbyn eu Heglwys yn aelod o Cytûn,
- parau i gefnogi ac annog y Parchedig Irfan John o'r Eglwys Fethodistaidd wrth iddo sefydlu cynulleidfaoedd newydd o blith y lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig yng Nghaerdydd a Chasnewydd,
- archwilio cynnal litwrgïau'n canolbwyntio ar genhadaeth gyda chlerigwyr yn nyffryn Wysg,
- chwarae rhan gefnogol wrth adolygu Partneriaeth Eciwmenaidd Dwyrain Caerdydd,
- cefnogi gwaith Corff Noddi PELI Bae Caerdydd ac annog cenhadaeth a gweinidogaeth y Goleulong,
- estyn y dyddiad cau ar gyfer y Cwrs Gweinidogaeth Croeso i Gymru sydd i'w gynnal yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf ar 23-25 Ionawr tan y 5ed o Ionawr,
- parhau i fapio partneriaethau eciwmenaidd lleol ledled Cymru,
- mynychu a chefnogi nifer o wasanaethau eglwysig lleol a rhanbarthol a chyfarfodydd ledled Cymru.

Gan ganolbwyntio ar ein gwaith yn y cylch cyhoeddus, bu nifer o ddatblygiadau o bwys:

- Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru: wedi cytuno i adolygu cynnal gweddïau cyn cyfarfodydd Cyngor, pwysleisio'r angen i gefnogi caplaniaid yn ysbytai Cymru ac ymgynghori ymhellach ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru),
- chwarae rôl allweddol wrth lunio a chynnal Cynhadledd genedlaethol gyntaf Cymru ar Fewnfudo yng Nghaerdydd gan fyfyrio ar anghenion yr eglwys a erlidiwyd sy'n ceisio noddfa yng Nghymru, a mater heriol y fasnach mewn pobl,


Cynhadledd genedlaethol ar fewnfudo

- cyfrannu at waith y grŵp cynllunio ar gyfer y Fforwm Hil a grëwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru,
- cefnogi gwaith Canolfan Caerdydd ar gyfer Gwasanaethau Caplaniaeth.

Gan Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol

Yn dilyn y Cydgynulliad, a gynhaliwyd yn Aberystwyth ym mis Hydref, bu Rhian Linecar ynghlwm â'r camau dilynol megis:

- ateb ymholiadau ynghylch y broses drafod/fyfyrio ar gyfer yr eglwysi o dan sylw,
- anfon dogfennau at rai cyfrannog,
- penderfynu gydag Ynyr Roberts pa wybodaeth sydd angen ei chynnwys ar wefan y Cydgynulliad – **www.cydgynulliad.org.uk**
- mynd i gyfarfod y Comisiwn Catholig ar gyfer Undod Cristnogol i siarad am y Cydgynulliad.



Gan Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru:

*Annwyl Frodyr a Chwiorydd yng Nghrist,*

*Wrth i ni baratoi ar gyfer cyfnod y Nadolig, rwy'n dwyn cyfarchion yr ŵyl oddi wrth aelodau Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.*

*Mae'r Nadolig wrth gwrs yn gyfnod o lawenydd ac optimistiaeth ar gyfer y byd. Ond rydym yn dathlu mewn cenedl ac mewn byd ble mae pobl mewn angen mawr, ac mewn perygl o anobeithio; byd sydd ag angen cynyddol am y neges o obaith a ddaw o wely'r preseb.*

*Rydym yn byw mewn adeg o gythrwfl economaidd, ac o gyni cynyddol yn achos y mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Rydym yn gobeithio ac yn gweddïo y bydd pobl Cymru yn ymateb i anghenion eu cymdogion mewn ffydd, gobaith a chariad, gan ddysgu wrth fywyd, gwaith a dysgeidiaeth Iesu.*

*Mae pob un ohonom yng Nghyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn gweddïo y bydd y gobaith a ddatgelwyd gan y plentyn Crist yn holl bresennol y Nadolig hwn a gydol y flwyddyn i ddod i bobl Cymru a'r byd yn ehangach.*

*I chi i gyd, ar ein rhan ni oll, Nadolig Llawen a 2013 tangnefeddus, hapus a llewyrchus!*

Gareth Morgan Jones,
LLYWYDD CYNGOR EGLWYSI RHYDDION CYMRU

Yn ei gyfarfod diwethaf ar Dachwedd 26ain, bu Cyngor yr Eglwysi Rhyddion yn trafod materion allweddol ynghylch addysg grefyddol, yn ystyried cyflwyniad ar y Bil Trawsblannu Dynol ac yn myfyrio ar y cwestiwn o gynnal Gweddïau Cyngor. Derbyniwyd adroddiadau gan nifer o aelodau yn canolbwyntio ar ddathlu'r Troi Allan ac yn myfyrio ar oblygiadau Cydgynulliad Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol.

## Cyfarfodydd y Dyfodol

Cynhelir Cyfarfod nesaf Grŵp Galluogi Cytûn yng nghanolfan **Gateway, Amwythig ar ddydd Iau 14 Chwefror**. Hefyd, gan edrych i'r dyfodol, mae'r paratoadau cychwynnol ar gyfer pebyll yr Eglwysi yn nigwyddiadau cenedlaethol 2013 eisoes ar waith gyda llythyr yn gofyn am gysylltiadau enwadol ym mhob un o'r ardaloedd (Boncath, Llanfair-ym-Muallt a Dinbych) wedi'i anfon at yr arweinwyr enwadol. Os ydych chi'n byw yn un o'r ardaloedd hynny ac yn dymuno bod yn rhan o'r timau sy'n paratoi yn lleol ar gyfer y digwyddiadau pwysig hyn, yna cysylltwch os gwelwch yn dda â **rhian@cytun.org.uk**

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited"
Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 Cytûn, 58 Heol Richmond, Caerdydd, CF24 3UR | ffôn: 02920 464204 | e-bost: post@cytun.org.uk